Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Rhif y Cwmni: 08719645

# Cylch Gorchwyl
# Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

**Dyddiad Cymeradwyo:** 6 Mawrth 2025

**Dyddiad Adolygu:** Chwefror 2026

## 1. Cyflwyniad

Yn unol ag Adran 3.40 o Ddogfen Fframwaith Life Sciences Hub Wales Ltd. (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru), bydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn enwebu pwyllgor blynyddol sy'n ymdrin ag archwilio, risg a sicrwydd. Enw'r Pwyllgor hwn yw'r **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** ("y Pwyllgor").

Mae rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor, fel y cânt eu pennu gan y Bwrdd, a'r trefniadau gweithredu, wedi'u nodi yn y cylch gorchwyl hwn a dylid eu hystyried ochr yn ochr â Dogfen Fframwaith ac Erthyglau Cymdeithasu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

Mae cyfansoddiad a threfniadau gweithredu busnes y pwyllgor yn cyd-fynd â'r pum egwyddor a nodir yn Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys Ei Fawrhydi.

## 2. Pwrpas

Pwrpas y Pwyllgor yw:

- cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr (sef y Swyddog Cyfrifyddu) ynghylch digonolrwydd fframwaith sicrwydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r trefniadau ar gyfer cynnal system effeithiol o reolaeth fewnol – archwilio, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol.
- cynghori a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.
- datblygu a chynnal y fframwaith sicrwydd, a gwneud yn siŵr bod y sicrwydd a roddir yn gynhwysfawr ac yn ddibynadwy, a rhoi cymorth cadarn i'r Bwrdd i wneud penderfyniadau a chyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau bod amcanion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cael eu cyflawni, yn unol â'r safonau llywodraethu da.
- sicrhau bod holl fusnes y Pwyllgor yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru, gan gynnwys *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* (Cymru) 2015.

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd, a bydd yn atebol iddo.

## 3. Aelodaeth

| | |
|---|---|
| 3.1 | Bydd gan y Pwyllgor o leiaf dri aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a dau gyfarwyddwr anweithredol. |
| 3.2 | Bydd holl aelodau'r Pwyllgor yn cael eu penodi i'r Pwyllgor gan y Bwrdd. |
| 3.3 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cael ei benodi gan y Bwrdd gan unrhyw un o'i aelodau ac eithrio Cadeirydd y Bwrdd, a bydd yn rhoi cyngor annibynnol i'r Bwrdd. Bydd gan y Cadeirydd brofiad ariannol diweddar a pherthnasol, a chymhwyster proffesiynol gan gorff cyfrifyddu. |
| 3.4 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cadeirio pob cyfarfod. Os bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol, bydd gweddill yr aelodau sy'n bresennol yn ethol un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod. Os yw absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor yn hysbys ymlaen llaw, gall Cadeirydd y Bwrdd ddynodi aelod o'r pwyllgor i gyflawni'r swyddogaeth hon dros dro. |
| 3.5 | Bydd cyfnod gwasanaeth aelodau'r Pwyllgor yn para am dair blynedd, a gellir ei ymestyn am hyd at uchafswm o dair blynedd arall yn ôl disgresiwn y Bwrdd. Gall aelodau'r Pwyllgor sy'n aelodau o'r Bwrdd ymddiswyddo gyda chaniatâd y Bwrdd a bydd eu gwasanaeth yn dod i ben os nad ydynt yn aelodau o Fwrdd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru mwyach. |
| 3.6 | Dylai aelodau ddatgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau na chawsant eu hysbysu o'r blaen yn unol â threfniadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer datgan a rheoli buddiannau. |
| **4. Presenoldeb** | |
| 4.1 | Mae gan yr unigolion canlynol wahoddiadau sefydlog i fynd i holl gyfarfodydd y Pwyllgor:<br>• Prif Weithredwr<br>• Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (Arweinydd Gweithredol y Pwyllgor)<br>• Cyfarwyddwr Arloesi a Mabwysiadu<br>• Pennaeth Llywodraethu, Risg a Chydymffurfio (Ysgrifennydd y Cwmni)<br>• Pennaeth Archwilio Mewnol (neu gynrychiolydd)<br>• Cynrychiolydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilio Cymru) |
| 4.2 | Gwahoddir eraill o'r tu mewn neu'r tu allan i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru y mae'r Pwyllgor o'r farn y dylent fod yn bresennol, gan ystyried y materion sydd dan sylw ym mhob cyfarfod. |
| 4.3 | Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sydd fel arfer yn bresennol ond nad ydynt yn aelodau dynnu'n ôl o'r drafodaeth ar faterion penodol er mwyn hwyluso trafodaeth agored ac onest. |
| **5. Cworwm** | |
| 5.1 | Bydd cyfarfod wedi'i alw'n briodol o'r Pwyllgor lle mae cworwm o ddau aelod a'r Cadeirydd yn bresennol yn gymwys i arfer yr holl awdurdodau, |

pwerau a disgresiwn sydd wedi'u breinio yn y Pwyllgor neu sy'n arferadwy gan y Pwyllgor.

5.2 Caiff Cadeirydd y Bwrdd enwebu aelodau eraill o'r Bwrdd os na all un neu ddau o'r aelodau ddod i gyfarfod.

## 6. Amlder cyfarfodydd

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter blwyddyn yn unol â'r cylch adrodd ac archwilio blynyddol, wedi'i gydlynu ymlaen llaw gan y Bwrdd er mwyn gallu cael adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor o bob cyfarfod.

6.2 Fel arfer, bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal yn benodol er mwyn ystyried yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, cyn i'r Bwrdd eu cymeradwyo.

## 7. Rhybudd o gyfarfodydd

7.1 Oni chytunir fel arall, anfonir rhybudd am bob cyfarfod yn cadarnhau'r lleoliad, yr amser a'r dyddiad ynghyd ag agenda o'r eitemau i'w trafod, a bydd papurau perthnasol yn cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor a phob un arall y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol, dim hwyrach na phum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod.

7.2 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn galw cyfarfodydd pellach o'r Pwyllgor ar gais unrhyw un o'i aelodau neu ar gais yr archwilydd allanol neu fewnol.

## 8. Cofnodion cyfarfodydd

8.1 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn trefnu bod cofnodion o drafodion a phenderfyniadau pob cyfarfod yn cael eu cymryd, gan gynnwys enwau'r rhai a oedd yn bresennol ac unrhyw ddatganiad o wrthdaro rhwng buddiannau. Bydd y cofnodion yn cael eu cymryd gan Ysgrifennydd dynodedig y Pwyllgor.

8.2 Bydd cofnodion drafft y cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu mor fuan â phosib o fewn saith diwrnod gwaith ar ôl i'r cyfarfod gael ei gynnal, yn gyntaf i Gadeirydd y Pwyllgor i'w hystyried ac yna i'r holl aelodau a'r rhai a oedd yng nghyfarfod y Pwyllgor.

8.3 Bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod dilynol.

8.4 Bydd copïau o'r cofnodion wedi'u cymeradwyo yn cael eu hanfon at Gadeirydd y Pwyllgor i'w cymeradwyo.

## 9. Camau Gweithredu'r Cadeirydd

9.1 Mae'n bosib y bydd adegau pan fydd angen i benderfyniadau a fyddai fel arfer yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor gael eu gwneud rhwng cyfarfodydd a drefnwyd, ac nid yw'n ymarferol galw cyfarfod o'r Pwyllgor.

9.2 Yn yr amgylchiadau hyn, caiff Cadeirydd y Pwyllgor ddelio â'r mater ar ran y Bwrdd neu'r Pwyllgor. Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn drwy ymgynghori ag aelodau'r Pwyllgor a chael eu cefnogaeth. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd adegau pan fydd angen i'r Cadeirydd wneud penderfyniad ar ran y Pwyllgor, yn dibynnu ar natur a/neu amseriad y gofyniad. Yn yr achosion hyn, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor yn cael gwybod fel y bo'n briodol. Rhaid gwneud hyn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â Dogfen Fframwaith ac Erthyglau Cymdeithasu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

9.3 Rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir yn unol â darpariaeth Camau Gweithredu'r Cadeirydd gael eu hadrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a'u cofnodi yn y cofnodion. Rhaid cadw manylion a'r holl ohebiaeth sy'n gysylltiedig â'r cam gweithredu yn ffurfiol.

## 10. Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Bydd y Pwyllgor yn cytuno ymlaen llaw â'r Bwrdd bob blwyddyn ar raglen flynyddol o weithgareddau, gan ystyried amgylchedd gweithredu, adnoddau a risgiau'r Hwb.

Bydd gan y Pwyllgor y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol canlynol:

### 10.1 Adroddiadau ariannol

10.1.1 Bydd y Pwyllgor yn adolygu cyllideb arfaethedig Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru cyn pob blwyddyn ariannol ac yn adrodd ei farn i'r Bwrdd cyn i'r gyllideb gael ei chymeradwyo.

10.1.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro cywirdeb datganiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan gynnwys adroddiadau ar berfformiad ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan adolygu materion a dyfarniadau pwysig sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol a allai fod ynddynt.

10.1.3 Bydd y Pwyllgor yn bodloni ei hun bod y datganiadau ariannol blynyddol yn cynrychioli sefyllfa ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn deg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio a'u cymeradwyo yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru.

10.1.4 Bydd y Pwyllgor yn monitro cofrestrau o'r canlynol i ategu gwaith paratoi cyfrifon:

- Buddiannau
- Rhoddion a gafwyd ac a roddwyd
- Lletygarwch a gafwyd ac a gynigiwyd
- Colledion a thaliadau arbennig (gweler *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*).

10.1.5 Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn adolygu ac yn herio'r canlynol lle bo angen:

- cysondeb polisïau cyfrifyddu, ac unrhyw newid iddynt.
- a yw'r polisïau cyfrifyddu sydd ar waith yn cydymffurfio â gofynion perthnasol, yn enwedig llawlyfr adrodd ariannol a chyfarwyddyd

cyfrifon Trysorlys EF.
- y dulliau a ddefnyddir i roi cyfrif am drafodion sylweddol neu anarferol lle mae dulliau gwahanol yn bosib.
- a yw'r Hwb wedi dilyn safonau cyfrifyddu priodol ac wedi gwneud amcangyfrifon a dyfarniadau priodol, gan ystyried barn yr archwilydd allanol lle mae'r rhain wedi cael eu ceisio neu eu darparu.
- eglurder datgelu yn adroddiadau ariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'r cyd-destun ar gyfer cyflwyno datganiadau ariannol.
- yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol (i'r graddau mae'n ymwneud â'r datganiadau ariannol neu ag archwilio a rheoli risg).
- bod proses gadarn wedi ei dilyn wrth baratoi'r datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol.

**10.2 Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg**

Bydd y Pwyllgor yn:

10.2.1 Adolygu cynllun blynyddol a Chynllun Archwilio Mewnol y Pwyllgor o fewn cyd-destun y cynllun busnes arfaethedig gan Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a sicrhau bod cynlluniau'r Pwyllgor wedi'u haddasu'n briodol ar gyfer unrhyw welliannau a wnaed yn y cynllun busnes terfynol.

10.2.2 Adolygu a herio'n feirniadol ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau rheoli risg a rheolaeth fewnol ariannol ac anariannol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a gofynion cyfreithiol statudol.

10.2.3 Bodloni ei hun bod y system rheolaeth fewnol wedi gweithredu'n effeithiol drwy gydol y cyfnod adrodd.

10.2.4 Adolygu ac argymell i'r Bwrdd y datganiad llywodraethu blynyddol ac unrhyw ddatganiad arall sydd i'w gynnwys yn yr adroddiad blynyddol sy'n ymwneud â rheolaeth fewnol a rheoli risg.

10.2.5 Adolygu risgiau strategol, corfforaethol a gweithredol, ac ystyried risgiau sy'n deillio o effaith gweithgarwch risg uchel.

10.2.6 Craffu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch:
- uwchgyfeirio materion risg uchel i Lywodraeth Cymru;
- y fframwaith risg a gweithgarwch rheoli risg.

10.2.7 Craffu ar y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd gan ei adolygu'n briodol yn rheolaidd.

10.2.8 Adolygu digonolrwydd y trefniadau llywodraethu.

10.2.9 Ystyried risgiau a buddion unrhyw gontractau sylweddol sydd angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor, yn unol â Chynllun Dirprwyo Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd adroddiadau caffael a dogfennau dyfarnu'r contract yn cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor i'w hystyried fel y bo'n briodol.

| | |
|---|---|
| 10.2.10 | Craffu ar weithrediadau strategol arbennig eraill, gan gynnwys newidiadau cyllidebol / gwariant, rhaglenni newid a phrosiectau perthnasol os ystyrir eu bod yn peri risg sylweddol, naill ai o'i wirfodd ei hun neu yn dilyn cais gan y Bwrdd. |
| 10.2.11 | Adolygu perfformiad y busnes o ran Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn ogystal â dangosyddion perthnasol eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau risg neu flaenoriaeth uchel, os bydd y Pwyllgor yn gofyn am hynny. |
| **10.3 Cydymffurfio, Datgelu Camarfer a Thwyll** | |
| Bydd y Pwyllgor yn: | |
| 10.3.1 | Adolygu digonolrwydd a diogelwch trefniadau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer ei gyflogeion neu ei gontractwyr er mwyn codi pryderon, yn gyfrinachol, ynghylch camweithredu posib mewn adroddiadau ariannol neu faterion eraill. |
| 10.3.2 | Adolygu gweithrediad Polisi Gwrth-Dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. |
| 10.3.3 | Adolygu systemau a rheolaethau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ar gyfer atal llwgrwobrwyo a chael adroddiadau ar ddiffyg cydymffurfio. |
| 10.3.4 | Cael adroddiadau rheolaidd am unrhyw achos honedig o dwyll, dwyn, chwythu'r chwiban neu lwgrwobrwyo ymysg cyflogeion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, aelodau'r Bwrdd neu'r Pwyllgor, contractwyr neu unigolion eraill sy'n gweithredu ar ei ran ac adolygu gweithrediad polisïau perthnasol yn rheolaidd. |
| 10.3.5 | Cael adroddiadau rheolaidd a fydd yn ymdrin ag unrhyw achos o dorri rheolau diogelu data. |
| **10.4 Archwilio Mewnol** | |
| Bydd y Pwyllgor yn: | |
| 10.4.1 | Cymeradwyo'r broses dendro a phenodi'r archwilydd mewnol. |
| 10.4.2 | Cytuno ar y strategaeth archwilio mewnol a'r rhaglenni gwaith sicrwydd blynyddol a'u cymeradwyo, gan gynnwys adolygiadau dilynol a monitro cynnydd o ran cynlluniau a dangosyddion perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt. |
| 10.4.3 | Monitro ac adolygu annibyniaeth ac effeithiolrwydd rhaglen archwilio Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn unol â'r amcanion, y safonau a'r arferion a ddisgrifir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) (Fframwaith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, 3.4.12). |
| 10.4.4 | Ystyried sgiliau a digonolrwydd adnoddau archwilio mewnol a sicrwydd, a sicrhau eu bod yn ddigonol i ddarparu lefel briodol o sicrwydd. |

10.4.5 Cytuno ar fesurau perfformiad ar gyfer cyflawni archwiliadau mewnol a rhaglenni adolygu sicrwydd busnes, a monitro perfformiad yn eu herbyn.

10.4.6 Adolygu digonolrwydd ymatebion y rheolwyr i faterion a nodwyd mewn aseiniadau sicrwydd.

10.4.7 Asesu barn sicrwydd ac adroddiad blynyddol yr Archwiliad Mewnol.

10.4.8 Cymeradwyo rhaglen sicrhau ansawdd a gwella’r Pennaeth Archwilio Mewnol a monitro perfformiad yn ei herbyn.

10.4.9 Cwrdd â’r Pennaeth Archwilio Mewnol o leiaf unwaith y flwyddyn, heb i’r rheolwyr fod yn bresennol, i drafod cylch gwaith y darparwr gwasanaeth ac unrhyw fater sy’n codi o gyflwyno’r rhaglen sicrwydd. Yn ogystal, bydd ganddo hawl i gael mynediad uniongyrchol at Gadeirydd y Bwrdd ac at y Pwyllgor a bydd yn atebol yn swyddogaethol i’r Bwrdd.

10.4.10 Derbyn ac ystyried canfyddiadau adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd gweithgarwch archwilio mewnol.

**10.5 Archwilio Allanol**

Fel Corff Hyd Braich Llywodraeth Cymru sydd ym mherchnogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer archwilio allanol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, ac unrhyw ofynion y gall Llywodraeth Cymru eu pennu o bryd i’w gilydd.

Os yw’n ofynnol ei fod yn gwneud hynny, bydd yr Hwb yn trefnu bod ei archwilydd allanol yn darparu'r rhesymeg dros ei farn archwilio i Lywodraeth Cymru ac i archwilwyr allanol Llywodraeth Cymru.

Bydd yr Hwb yn rhoi pob cymorth, gwybodaeth neu esboniad i Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel archwilydd allanol Llywodraeth Cymru, ag y bydd yn rhesymol iddo ofyn amdano wrth gyflawni ei gyfrifoldebau.

Bydd y Pwyllgor yn:

10.5.1 Cymeradwyo’r broses dendro a phenodi’r archwilydd allanol.

10.5.2 Goruchwylio’r berthynas rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a’r archwilwyr allanol, ac adolygu eu heffeithiolrwydd.

10.5.3 Cwrdd yn rheolaidd â’r archwilydd allanol, o leiaf unwaith y flwyddyn, heb i’r rheolwyr fod yn bresennol, i drafod cylch gwaith yr archwilydd ac unrhyw fater sy’n codi o’r archwiliad.

10.5.4 Adolygu a chymeradwyo’r cynllun archwilio blynyddol, a sicrhau ei fod yn gyson â chwmpas y gwaith archwilio.

10.5.5 Adolygu canfyddiadau’r archwiliad gyda’r archwilwyr allanol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

- trafodaeth ar unrhyw fater o bwys a gododd yn ystod yr archwiliad.
- unrhyw ddyfarniad cyfrifyddu neu archwilio.

- lefelau'r gwallau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad.
- effeithiolrwydd yr archwiliad.

10.5.6 Adolygu unrhyw lythyr sylwadau y mae'r archwilydd allanol yn gofyn amdano cyn iddo gael ei lofnodi gan Gadeirydd Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

10.5.7 Adolygu'r llythyr rheoli a digonolrwydd ymateb y rheolwyr i ganfyddiadau ac argymhellion yr archwilydd.

## 11. Parhad Busnes ac Iechyd a Diogelwch

Bydd y Pwyllgor yn:

11.1 Adolygu ac asesu polisïau iechyd a diogelwch Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, a chael adroddiadau ar unrhyw achos statudol o dorri'r polisi a pha mor effeithiol mae'r polisi wedi gweithio.

11.2 Adolygu ac asesu cynlluniau parhad busnes Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a chael adroddiadau ar ba mor effeithiol mae'r cynlluniau wedi gweithio mewn digwyddiadau penodol neu mewn profion ar sefyllfaoedd parhad busnes.

## 12. Seiberddiogelwch

Bydd y Pwyllgor yn:

12.1 Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn rheoli ei risgiau seiber yn briodol, gan gynnwys strategaethau lliniaru risg priodol.

12.2 Adolygu cadernid seiber Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru bob blwyddyn o leiaf, fel rhan o broses sicrwydd diwedd blwyddyn ariannol. Bydd hefyd yn trafod unrhyw fater y dylid ei gynnwys yn argymhellion y Pwyllgor ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 13. Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon

Bydd y Pwyllgor yn:

13.1 Ystyried a chymeradwyo polisïau a chynlluniau amgylcheddol, cynaliadwyedd a lleihau carbon y sefydliad, ac yn ceisio sicrwydd ynghylch cynnydd.

## 14. Gofynion o ran gwybodaeth

14.1 Ar gyfer pob cyfarfod, bydd y Pwyllgor yn cael (ar ddechrau'r cyfarfod):

- adroddiad sy'n crynhoi unrhyw newid sylweddol i risgiau strategol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a nodwyd yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (fel y bo'n briodol).
- copi o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
    - Gwaith a gyflawnwyd (a chymhariaeth â'r gwaith a gynlluniwyd)

   - Materion allweddol sy'n deillio o waith archwilio mewnol
   - Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwiliadau
   - Newidiadau i'r cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno;
   - Unrhyw faterion mewn cysylltiad ag adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion yr archwiliad mewnol.
- adroddiad cynnydd (ysgrifenedig/llafar) gan gynrychiolydd yr Archwilydd Allanol yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg (gall hyn gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol i Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, agweddau ar y gwaith ehangach sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru - er enghraifft, adroddiadau Gwerth am Arian a chanfyddiadau arfer da).
- Adroddiadau Sicrwydd Rheoli ac Adroddiadau ar reoli digwyddiadau mawr, "damweiniau a fu bron â digwydd" a'r gwersi a ddysgwyd.

14.2 Pan fo'n briodol, bydd y Pwyllgor hefyd yn cael:

- Cynigion ar gyfer cylch gorchwyl yr archwiliad mewnol/y siarter archwilio mewnol.
- Cynllun a Strategaeth Blynyddol yr Archwiliad Mewnol.
- Adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol.
- Adroddiadau Sicrhau Ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol.
- Manylion ar unrhyw ddyfarniadau contractau / caffael (sydd angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor yn unol â Chynllun Dirprwyo Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru).
- Cyfrifon Statudol drafft Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Adroddiad ar unrhyw newid i bolisïau cyfrifyddu.
- Llythyr rheoli'r Archwiliad Allanol.
- Adroddiad ar unrhyw gynnig i dendro ar gyfer swyddogaethau archwilio.
- Adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilio mewnol ac allanol;
- Fframwaith/Polisi Rheoli Risg Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## 15. Cyfrifoldebau Adrodd

Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu ar y canlynol:

15.1 y prosesau a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, a'r Datganiad Llywodraethu.

15.2 y polisïau cyfrifyddu, y cyfrifon a'r adroddiad blynyddol, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau neu wallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr i'r archwilwyr allanol.

15.3 y gweithgarwch a gynlluniwyd a chanlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol.

15.4 digonolrwydd ymateb rheolwyr i faterion a nodwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwilwyr allanol.

| | |
|---|---|
| 15.5 | digonolrwydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'i integreiddiad â'r gwaith ehangach o reoli risg yn y System Rheoli Risg (gan gynnwys i ba raddau mae gwaith rheoli risg wedi'i wreiddio'n effeithiol ar draws y sefydliad). |
| 15.6 | cynigion ar gyfer tendro am wasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu ar gyfer prynu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu harchwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio. |
| 15.7 | polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig; |
| 15.8 | bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Bwrdd. |
| 15.9 | bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod. Gwneir hyn fel arfer drwy gyflwyno copi o'r cofnodion neu adroddiad cryno gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn tynnu sylw at unrhyw fater pwysig mae'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn berthnasol i'r Bwrdd. |
| 15.10 | bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd, wedi'i amseru i ategu'r gwaith o baratoi'r datganiad llywodraethu blynyddol, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn. |
| **16. Hawliau** | |
| 16.1 | Bydd gan y Pwyllgor hawl i'r canlynol:<br>• adnoddau digonol i gyflawni ei ddyletswyddau; hyfforddiant priodol ac amserol, ar ffurf rhaglen gynefino ar gyfer aelodau newydd ac yn barhaus ar gyfer pob aelod.<br>• cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y sefydliad, yn amodol ar gadarnhad gan yr Uwch Dîm Arwain bod arian ar gael.<br>gofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau gan unrhyw un o gyflogeion Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.<br>• cyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol. Dylid adolygu penodiad unrhyw aelodau cyfetholedig yn flynyddol, gyda deiliadaeth aelodaeth yn cyd-fynd â deiliadaeth aelodau eraill y pwyllgor.<br>• galw ar unrhyw gyflogai i gael ei holi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn ôl yr angen.<br>• uwchgyfeirio unrhyw fater na ellir ei ddatrys rhwng y Pwyllgor a'r Bwrdd at Lywodraeth Cymru. |
| 16.2 | Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r cynrychiolydd archwilio allanol fynediad rhydd a chyfrinachol at Gadeirydd y Pwyllgor. |
| **17. Adolygu a datblygu'r pwyllgor** | |
| 17.1 | Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i berfformiad ei hun drwy broses hunanasesu. Dylai hyn fod yn sail i welliant parhaus y Pwyllgor a'i drefniadau gweithredu. |

| | |
|---|---|
| 17.2 | Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad blynyddol o'i Gylch Gorchwyl ac yn argymell unrhyw newid y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. |
| 17.3 | Gall y Pwyllgor hefyd drefnu o bryd i'w gilydd bod adolygiad annibynnol allanol yn cael ei gynnal o'i gyfansoddiad a'i Gylch Gorchwyl, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu mor effeithiol â phosib. |
| 17.4 | Disgwylir i holl aelodau'r Pwyllgor ymgymryd â rhaglen ymgysylltu briodol o fewn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a'i weithgareddau i'w helpu i ddeall ei amcanion, ei anghenion busnes, ei flaenoriaethau a'i risgiau. Dylai hyn fod yn rhan o'r rhaglen gynefino. |
| **18. Materion eraill** | |
| 18.1 | Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cwrdd o bryd i'w gilydd â'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Cynrychiolydd Archwilio Allanol y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. |
| 18.2 | Bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn cael copi o *Corporate Governance in Central Government Departments: Code of Good Practice* a *HM Treasury's Audit and Risk Assurance Committee Handbook* ar ôl cael eu penodi i'r Pwyllgor i'w helpu i ddeall trefniadau Llywodraethu a rôl y Pwyllgor. |